# Taflen Wybodaeth Dosbarth Eithin, Ysgol Pentrecelyn

Mae wedi bod yn hyfryd croesawu plant yn ôl i'r ysgol a'u gweld yn gwenu wrth iddynt gychwyn neu ddychwelyd i Ddosbarth Eithin. Gobeithio y bydd y llythyr hwn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am y tymor, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, gofynnwch wyneb yn wyneb neu drwy ebost.



**Hwb/J2e** Yng Nghyfnod Allweddol 2 rydym yn defnyddio app J2e sydd yng nghyfrif Hwb eich plentyn ar gyfer nifer o dasgau iaith, mathemateg a thema. Bydd gwaith cartref yn ychwanegol i ddarllen bob penwythnos yn ogystal ag ymarfer tablau a sillafu ar J2blast yn cael ei osod ar J2homework. Os oes gennych unrhyw broblemau wrth ei ddefnyddio, rhowch wybod i ni a byddwn yn hapus i helpu.

**Llyfrau Darllen-** Bydd bag darllen yn cael ei yrru adref ar brynhawn Dydd Mercher fel gwaith cartref. Cofiwch atgoffa'r plant i'w ddod a fo'n ôl ar fore Dydd Llun os gwelwch yn dda. Bydd gan bob disgybl lyfr darllen Cymraeg a Saesneg ac maent yn eu darllen yn rheolaidd gydag aelodau o staff yn ystod yr wythnos, felly byddwn yn ddiolchgar iawn os wnewch chi ddod i'r arferiad o'u gyrru mewn ar fore Llun. Yn ogystal bydd modd i ddisgyblion fynd ar ***Ddarllen Co*** er mwyn darllen llyfrau'n annibynnol. Bydd pob disgybl yn derbyn enw defnyddiwr a chyfrinair personol sydd wedi cael ei nodi yn ei llyfryn cofnod darllen.



**Byrbryd–** Yn ystod y bore cyn amser chwarae bydd plant Dosbarth Eithin yn cael byrbryd. Bydd amrywiaeth o ffrwythau gan siop leol yn cael ei gynnig i'r plant ynghŷd â diod o laeth. Gofynnwn yn garedig i chi am gyfraniad o £1.50 yr wythnos, gan ei dalu ar 'Parent Pay'.



**Boteli dŵr–** Bydd pob plentyn yn derbyn potel dŵr Ysgol Pentrecelyn newydd i'w gadw yn y dosbarth ac byddent yn llenwi a gwagu y poteli yn ddyddiol. Bydd modd iddynt yfed dŵr yn annibynnol yn ystod y dydd. Bydd unrhyw fotel o adref yn cael ei gadw yn y bag ar gyfer amseroedd rhydd.



**Thema**– Ein thema y tymor yma fydd **Ddoe a Heddiw**. Byddwn yn dysgu mwy am sut mae pethau a llefydd wedi newid dros amser. Byddwn yn ymchwilio i wahanol gyfnodau hanesyddol ac yn edrych ar adeiladau, dillad a thrafnidiaeth yn benodol. Mi fydd y plant yn cael rhan blaenllaw wrth gynllunio y thema ac byddwn yn cysylltu y thema gyda 6 maes dysgu y cwricwlwm newydd.

**Addysg Gorfforol—** Bydd sesiwn yn cael ei gynnal prynhawn Dydd Iau. Bydd angen i bob plentyn ddod i'r ysgol mewn gwisg addas (tracwisg neu siorts, crys-T ac esgidiau ymarfer corff) ar fore dydd Iau.



**Gwener Gwych–** Rydym fel Ysgol yn credu bod cynnig profiadau amrywiol i blant yn bwysig iawn. Felly pob prynhawn dydd Gwener, byddwn yn cynnig llu o weithgareddau cyffrous ar eu cyfer. Gofynnwn yn garedig i'r disgyblion sicrhau bod esgidiau addas fel welingtons a dillad sbar, yn enwedig trowsus hir, yn cael ei gadael yma yn yr Ysgol, fel ein bod yn medru gwneud y gorau o'r Ysgol goedwig naturiol a'r gymuned.

Rydym yn defnyddio App yr Ysgol, Facebook ac Instagram i rannu newyddion gyda rhieni–

**Ysgol Pentrecelyn.**

Mae gwefan yr ysgol hefyd yn cynnwys llawer o wybodaeth Ysgol, a dyma lle gallwch chi lawrlwytho app yr ysgol er mwyn cael gwybod am newyddion ysgol gyfan.

# Dosbarth Eithin, Ysgol Pentrecelyn—Class Information

It has been wonderful to welcome children back to school and see many smiling faces as they start in or return to Eithin Class. Hopefully this letter will give you more information about the term, but if you have any questions, please ask in person or by email.

**Hwb/J2e** In Key Stage 2 we use the J2e app which is in your child's Hwb account for a number of language, maths and theme tasks. Homework, in addition to reading every week-end as well as practicing tables and spelling on J2blast will be set on J2homework. If you have any problems using it, please let us know and we will be happy to help.

**Reading Books** - A reading bag will be sent home on Wednesday afternoon as homework. Please remember to remind the children to bring it back on Monday morning. They have a Welsh and an English reading book which they read regularly during the week with a member of staff so we would be grateful if the books are brought in on a Monday so that we can read with them during the week.

In addition, pupils will be able to go on **Darllen Co** to read books independently. Each pupil will receive a personal username and password which will be in their reading record booklet.



**Snack** – During the morning before playtime the children of Eithin Class will have a snack. A variety of fruit from a local shop will be offered to the children and a glass of milk. We kindly ask you for a contribution of £1.50 per week, paid on 'Parent Pay'.



**Water bottles** – Each child will receive a new Ysgol Pentrecelyn water bottle to keep in class, which they empty and fill daily. They will be able to drink water independently during the day. Any bottles from home will be kept in their bag for play times.



**Themes** – Our theme this term is **Now and Then**. We will be looking at how things and places have changed over time. We will be find out more about various historical periods and looking at buildings, clothing and transport in particular. The pupils will be involved during the planning process and we will be linking the people we learn about to the 6 learning areas of the new curriculum.

**PE** — An exercise session will be held on a Thursday afternoon. All children will need to come to school in suitable attire (tracksuit or shorts, T-shirt and trainers) on a Thursday morning.



**Fantastic Friday** – As a School we believe that offering diverse experiences to children is very important. So every Friday afternoon, we will offer a host of exciting activities for them. We kindly ask the pupils to ensure that suitable shoes such as wellingtons and spare tops and trousers are left here in the School, so that we can make the most of the natural forest School and the community.

We use the school app, Facebook and Instagram to share news with parents – Ysgol Pentrecelyn.

The school's website also contains a lot of School information, and this is where you can download the school's app to find out about whole school news.